Syniadau A.G.

Tymor yr Haf 2005 *Pris £1.00*

GWEDDI

Frances Jenkins, Ysgol Gymuned Roch, Sir Benfro

Bob dydd, byd ein disgyblion yn mynychu Addoliad ar y Cyd. Yn ystod yr amser yma, maent yn cael y cyfle i weddïo. Mae'n bwysig felly fod plant yn deall beth yw gweddi a'u bod yn cael cyfleoedd i fynegi eu syniadau a'u meddyliau drwy weddi.

Trafodwch bwysigrwydd cael amser i fyfyrio. Ni fydd pob disgybl yn dymuno plethu dwylo a chau llygaid. Foddbynnag, er mwyn hybu amser distaw, digynnwrf, rhaid annog plant i blygu pen a myfyrio ar yr hyn maent wedi ei glywed, a'r geiriau fydd yn y weddi.

Annog y disgyblion i ysgrifennu eu gweddïau eu hunain ar gyfer yr addoliad. Gellir gwneud hyn yn unigol neu mewn grwp. Ffordd arall o ddatblygu gweddi yw gofyn am wirfoddolwyr i ddod o flaen y dosbarth a dweud gweddi fer, un llinnell efallai. Gall y 'gadwyn'dyfu'n weddi gymunedol.

Mae'n bwysig i blant i werthfawrogi amser o lonyddwch a myfyrdod. Gall disgyblion archwilio i'r ffordd mae gwahanol grwpiau ffydd yn defnyddio gweddi fel rhan o addoliad, yn ogystal â defnyddio arteffactau wrth weddïo ee.

Bwdhaeth:	myfyrio, mantras wedi eu cerfio ar yr olwyn weddi
Cristnogaeth:	canhwyllau, llaswyr.
Hindþaeth:	myfyrio, mwclis gweddi.
Islam:	mat gweddi, mwclois gweddi, galwad i weddïo gan y Muezzin o'r Minaret., 5 gweddi ddyddiol sy'n cael eu hadrodd ar amserau arbennig yn ystod y dydd.
Iddewiaeth:	Siôl weddi, gorchudd pen, dynion yn gwisgo teffilin (bocsys bychan) yn cynnwys adnodau ar gyfer o'r Beibl.
Sikhiaeth:	paratoadau gweddi ee. ymolchi cyn mynd i mewn i'r ystafell weddi.

Trafod gweddi gyda'ch Dosbarth

Syniadau i ganolbwyntio arnynt:

* Beth yw gweddi?
* Pam fod pobl yn gweddïo?
* Pryd fydd pobl yn gweddïo?
* Ble bydd pobl yn gweddïo?
* Fyddwch chi yn gweddïo (tu allan i'r ysgol). Eglurwch eich ateb.

Wedi archwilio i thema gweddi gyda disgyblion o wahanol oedran yng NGhyfnod Allweddol 1 a 2, syweddolais fod y rhan fwyaf o blant wedi gweddïo rhywdro, un ai ambell dro neu yn rheolaidd. Ychydig iawn o blant sydd yn gwadu bobolaeth Duw, ond mae'r rhai sydd yn gadarn yn eu cred nad yw Duw yn bod ac yn barod iawn i heriosafbwynt yr rhai sydd yn credu yn Nuw.. Gall hyn arwain i drafodaeth fywiog, fydd yn parch syniadau a safbwyntiau y plant i gyd.

Mae Duw yn bwerus a gall newid pethau. Gall er enghraifft;
iachau y gwael;
roi cysur mewn amseroedd o dristwch;
faddau i bobl;
fod yn ffrind i'r unig / y trist / yr anghenus;

Gall Duw hefyd ein helpu i wneud penderfyniadau pwysig.
Bydd plant (fel oedolion nad sydd yn gweddïo yn rheolaidd) yn aml yn gweddïo pan fyddent angen rhywbeth. Gellir gwneud taflenni gwaith gan ddefnyddio y syniadau yma, a'u haddasu fel bo'r angen:

CA 1

Gallaf siarad â Duw am amseroedd hapus.

Gallaf siarad â Duw am amseroedd trist.

Gweddi
Pan yn gweddïo rydych yn siarad â Duw.



Medrwch siarad am bethau hapus neu drist sydd wedi digwydd i chi.
Tynnwch lun neu ysgrifennu am yr hyn yr hoffech siarad amdanynt gyda Duw.

CA 2

Ystyr gweddi yw siarad â Duw

Ydych chi'n teimlo ei bod yn dêg i siarad â Duw yn unig pan fo angen rhywbeth arnoch ?
Dychmygwch eich bod, pan yn gweddïo yn siarad â Duw yn ochr aral i'r ffôn.
Ydych chi'n meddwl y byddai yn ateb y ffôn petai'n gwybod mai rhywun arall eto sydd eisiau rhywbeth, sydd yn galw ?
Sut fyddech chi'n teimlo petai un o'ch ffrindiau yn siarad â chi yn unig pan fo arno eisiau rhywbeth gennych?

DWYLO GWEDDI

Teitl y darlun enwog gan yr arlunydd Almaeneg Albrecht Durer (1471 - 1528) yw
'Dwylo yr Apostol', ond mae'n fwy adnabyddus fel 'Dwylo Gweddi'. Cred rhai fod y darlun gwreiddiol wedi ei ysbrydoli gan y stori yma:

Dros bum can mlynedd yn ôl, mewn pentref bychan yn yr Almaen, trigaieurydd, ei wraig a deunaw o blant. Gan fod ganddo gymaint o blant, roedd yn rhaid iddo weithio yn galed iawn, i ennill arian i dalu am fwyd iddynt i gyd.

Redd un o'i feibion, Albrecht, a'i ffrind Franz, yn artistiaid talentog iawn. Foddbynnag, ni fedrai yr un o'r ddau fforddio i fynd i astudio yn llawn amser. Felly un noson, daethant i gytundeb - byddent yn taflu ceiniog - byddai'r sawl fyddai yn ennill yn mynd i'r coleg , tra byddai'r llall yn mynd i weithio yn y pyllau cyfagos, a'i gyflog yn mynd i dalu am addysg ei ffrind. Wedi pedair mlynedd, byddent yn newid drosodd. Felly, aeth Albrecht i astudio Celf tra roedd ei ffrind Franz yn gweithio i'w gadw.

Pan ddychwelodd Albrecht gartref, bedair mlynedd yn ddiweddarach, roedd yn arlunydd llwyddiannus. Nid oedd angen iddo fynd i weithio yn y pyllau i dalu i Franz fynd i'r colrg: gallai werthu rhai o'i ddarluniau. Foddbynnag, yn ystod yn amser y bu Franz yn gweithio yn galed yn y pyllau, aeth ei ddwylo yn fusgrell - ni fedrai baentio rhagor. Roedd Albrecht yn drist iawn. Un noswaith daeth ar draws Franz yn gweddïo, a thynnodd lun o'i ddwylo. Treuliodd dros flwyddyn yn troi y braslun yn ddarlun godidog. - i gydnabod yr aberth mawr wnaeth ei ffrind drosto,. Nid oedd Franz yn chwerw tuag at Albrecht o gwbl - bu'r ddau yn ffrindiau mawr o hyd.

Credai Albrecht Durer mai rhodd gan Dduw oedd ei dalent. Gosododd safon aruchel iddo'i hun, bob amser yn mynnu rhoi o'i orau. Mae ei ddarlun 'Dwylo Gweddi' yn dangos fod cyfhaeddiadau uchel weithiau yn dod o ganlyniad i bobl yn gweithio gyda'u gilydd. Mae'n deyrnged i gariad ac aberth ffrind.

Wedi darllen y stori yma gyda'ch dosbarth (gan addasu fel bo angen ar gyfer disgyblion iau) trafodwch y stori.

Sut wyddoch chi fod cyfeillgarwch ddofn rhwng Franz ac Albrecht ?
Pam, dybiwch chi, fod Albrecht yn credu fod Duw wedi rhoi iddo y gallu i fod yn arlunydd mawr?
Trafodwch beth sy'n gwneud ffrind da. Gall disgyblion recordio eu syniadau ar ffurff lluniau neu yn ysgrifenedig.
Archwiliwch straeon yn delio â chyfeillgarwch.
Trafodwch sut mae'r disgyblion wedi helpu eraill.
Ysgrifennwch weddi o ddiolch am rywbeth arbennig sydd wedi digwydd yn eich bywyd.

Gweddi'r Arglwydd

Yr weddi mwyaf enwog yn y grefydd Gristnogol yw'r un a roddodd yr Iesu i'w ddisgyblion - yn Efengyl Mathew, pennod 6, ad.9 - 13. Mae'r weddi yna yn esiampl o sut i weddïo . Nid yw'n weddi sydd yn rhaid ei hail adrodd bob dydd, fel arferiad. Trafod meddyliau mae pob gweddi, siarad â Duw. Foddbynnag, mae Gweddi'r Arglwydd yn weddi y dylai plant fod yn ymwybodol ohoni, ac yn deall ei hystyr.

Gellwch gael cyflwyniad Powerpoint o'r weddi yma a fersiwn syml ohoni (gweler isod) ar yr wefan yma: www.icteachers.co.uk/resources/re/prayerpp.ppt
Gallwch ddefnyddio y cyflwyniad yma ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol - mae'n rhoi rhagarweiniad i weddi i Cristion, ystum gweddïo, dysgeidiaeth yr Iesu ar weddi a 'Dydd ym mywyd Mynach'.

Gweddi'r Arglwydd

Ein Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd,
sancteiddier Dy emw
Deled Dy deyrnas
Gwneler Dy ewyllys
Megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
A maddau i ni ein dyledion
Fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr
Ac nac arwain ni i brofedigaeth
Eithr gwared ni rhag drwg
Canys eiddo Ti yw y deyrnas
Y nerth a'r gogoniant
Yn oes oesoedd
AMEN.

Gweddi'r Arglwydd.

Ein Tad yn y nefoedd
Helpa ni i barchu dy enw
Bydd yn frenin i ni
Teyrnasa ar y daear fel yn y nefoedd
Rho i ni heddiw bopeth sydd ei angen arnom.
Maddau i ni am bob pechod
A gwnawn ninnau faddau i bawb sydd wedi pechu yn ein herbyn
Helpa ni i beidio gwneud yr hyn sy'n anghywir
A gwarchod ni rhag niwed,
Mae popeth yn eiddo i Ti
Pob pwer a gogoniant sy'n y byd
Rwan ac am byth
Rwyf yn wir yn credu y weddi yma.

Adnoddau Defnyddiol:

'A Gift to the Child' Michael Grimmit et al (cyhoeddwyd: Stanley Thorne, ISBN 0-7501-0128-8)
'Solihull Handbook for Religious Education' (llyfrau CA 1 a CA 2 ar gael)
Gweinidog lleol , addolwyr yn ogystal âg aelodau o gymunedau ffydd eraill.
Ymweliad â lle o addoliad i archwilio i arteffactau yn gysylltiedig â gweddi.
Gweddiau pererinion a gweddiau o wahanol ffydd.

ADNODDAU MAGC *(Mudiad Addysg Gristnogol Cymru)*
Gwybodaeth fanwl a syniadau pellach i'w cael ym Mhecynnau Adnoddau MAGC
GELLIR LLUNGOPIO AR GYFER DEFNYDD EICH YSGOL.
Disgownt ychwanegol ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr.
Catalog Adnoddau a Phecynnau ynghyd â chopiau o 'Syniadau AG' ar gael oddiwrth:
Sali Roberts, MAGC,
Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH, SY20 9EX. (Tel/Ffacs:01654-761697)
© MAGC 2005